

Argyfwng Costau Byw - Rydyn ni yma i helpu



Rydyn ni
wedi datblygu
'SIOP UN STOP'
ar wefan Cyngor
Bwrdeistref
Sirol Caerffili
lle mae llawer o
fesurau cymorth
costau byw
mewn un lle –
SGANIWICH FI



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwneud popeth o fewn ei allu i helpu pobl leol yn ystod yr argyfwng costau byw presennol.

Rydyn ni'n sylweddoli pa mor anodd yw hi i bawb ar hyn o bryd, ac yn anffodus mae pethau'n debygol o waethgu wrth i ni gyrraedd misoedd y gaeaf.

Mae'r rhifyn arbennig hwn o 'Newsline' wedi'i greu i ddarparu llawer o help, gwybodaeth a chynghori defnyddiol i chi. Rydyn ni eisiau i chi gael mynediad at yr amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i helpu lleihau effaith y pwysau ariannol presennol.



Mae Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Sean Morgan, yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr awdurdod lleol – ac asiantaethau eraill – yn cefnogi'r gymuned leol yn llawn:

"Mae'r argyfwng costau byw ym mlaen meddwl pawb ar hyn o bryd, yn enwedig gan bod trigolion yn defnyddio mwy o ynni yn ystod y misoedd oerach, sydd eisoes wedi cyrraedd lefelau eithriadol. Fel Arweinydd y Cyngor, rydw i eisiau tawelu meddwl yr holl gymuned fod yr awdurdod lleol hwn yn gweithio'n galed i helpu pawb yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae trigolion wedi dweud wrthom ni fod angen cymorth arnyn nhw i fynd drwy'r gaeaf, felly rydyn ni eisiau sicrhau ei bo hi mor hawdd â phosibl i gael mynediad at yr holl gymorth sydd ar gael.

Rydyn ni wedi datblygu 'siop un stop' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lle mae llawer o fesurau cymorth costau byw mewn un lle –
www.caerffili.gov.uk/cymorth-costau-byw

"Gall rhai o'r cynlluniau hyn fod yn anodd eu deall, felly, yn ddiweddar, cafodd nifer o sioeau teithiol costau byw eu cynnal ledled y Fwrdeistref

Sirol i bobl leol drafod cymhwysedd wyneb yn wyneb â swyddogion y Cyngor a'n sefydliadau partner, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth.

"Rydyn ni hefyd yn edrych ar gyfres o ymyriadau pellach i'ch helpu chi dros y misoedd nesaf, a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser, treuliwch amser yn darllen y rhifyn arbennig hwn o 'Newsline' i sicrhau eich bod chi'n cael yr holl gymorth y mae gennych chi'r hawl iddo neu gysylltu â'r tîm, Gofalu am Gaerffili, i siarad ag aelod o staff heddiw."

Gofalu am Gaerffili

Ffôn: 01443 811490

E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae'r tîm, Gofalu am Gaerffili, ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd Iau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am – 4.30pm).



Cael help gyda'ch biliau ynni chi

Fel cyngor, rydyn ni wedi ymrwymo i helpu ein trigolion ni i leihau eu biliau tanwydd nhw a chadw'n gynnes ac yn iach.

Mae sawl cynllun bellach ar gael i drigolion ddatrys hyn, o daliadau cymorth Llywodraeth y DU, gosod gwres canolog am ddim, newid cyflenwr ynni, cymorth gyda dyledion tanwydd, mesurau arbed ynni, offer ynni effeithlon a mw.



Age UK

Mae'n debyg eich bod chi wedi sylwi ar eich biliau ynni yn codi. Ond mae'n bwysig gwybod pam mae hyn yn digwydd a beth y gallwch chi ei wneud i gadw ar ben costau cynyddol. Mae gan Age UK nifer o adnoddau a all eich helpu chi gyda'ch biliau ynni.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch Linell Gymorth Age UK ar **0800 678 1602** neu ewch i **Gwefan:** www.ageuk.org.uk/information-advice/money-legal/debt-savings/energy

Taliadau Tywydd Oer

Efallai y byddwch chi'n cael Taliad Tywydd Oer os ydych chi'n cael budd-daliadau penodol neu Gymorth ar gyfer Llog ar Forgais. Mae cynllun Taliad Tywydd Oer 2022 i 2023 yn dechrau ar 1 Tachwedd 2022. Gallwch chi wirio a oes taliad yn ddyledus i'ch ardal chi ym mis Tachwedd 2022. **Gwefan:** www.gov.uk/cold-weather-payment

Cynllun Cymorth â Biliau Ynni

Mae'r Cynllun Cymorth â Biliau Ynni yn darparu gostyngiad o £400 nad oes angen ei ad-dalu i aelwydydd cymwys i helpu gyda'u biliau ynni yn ystod gaeaf 2022 i 2023.

Mae pob cartref sydd â chysylltiad trydan domestig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn gymwys i gael y gostyngiad. Does dim angen i chi wneud cais am y gostyngiad, a does dim angen cysylltu â'ch cyflenwr ynni. Bydd y gostyngiad yn cael ei roi tuag at eich bil trydan cartref misol am 6 mis gan ddechrau ym mis

Hydref 2022. Byddwch chi'n cael: £66 ym mis Hydref a mis Tachwedd, £67 ym misoedd Rhagfyr, Ionawr, Chwefror a Mawrth. Byddwch chi'n cael y gostyngiad yn fisol, hyd yn oed os ydych chi'n talu am eich ynni bob chwarter neu'n defnyddio cerdyn talu.

Gwybodaeth bellach: www.gov.uk/guidance/getting-the-energy-bills-support-scheme-discount

Nyth Cymru

Mae Nyth Cymru yn darparu gwelliannau am ddim mewn effeithlonrwydd ynni i'r cartref fel boeler newydd, gwres canolog neu insiwleiddio i drigolion cymwys. Ewch i wefan Nyth Cymru neu ffonio **Nyth Cymru 0808 808 2244** nyth.llyw.cymru/

Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Taliad untro i leihau biliau cwsmeriaid cymwys dros fisoedd y gaeaf yw'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Gaeaf eleni (2022-23), mae'n codi o £140 i £150. Yng ngaeaf 2022-23, bydd y rhan fwyaf o aelwydydd cymwys yn cael Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn awtomatig.

Mae hyn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, pan oedd yn rhaid i chi hawlio'r arian oddi wrth eich cyflenwr chi os nad oeddech chi'n hawlio cyfran Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn. Ni fydd y gostyngiad yn effeithio ar eich Taliad Tywydd Oer chi na'ch Taliad Tanwydd Gaeaf. www.gov.uk/cynllun-gostyngiad-cartrefi-cynnes

Taliadau Tanwydd Gaeaf

Os ydych chi eisoes yn cael pensiwn y wladwriaeth neu fudd-dal lles arall sy'n cael ei dalu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, byddwch chi'n cael y taliad yn awtomatig.

Os nad ydych chi, bydd angen i chi wneud cais. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch linell gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf ar **08459 151 515** neu fynd i **Gov.UK**.

Gwefan: www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf

Cyflenwyr Ynni a Chyfleustodau

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich biliau tanwydd, cysylltwch â'ch cyflenwyr ynni yn y lle cyntaf. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig tariffau gostyngol i bobl ag incwm isel neu sy'n agored i niwed.

Mae'r cyflenwyr ynni a chyfleustodau canlynol yn cynnig grantiau i'w cwsmeriaid nhw:

- Cronfa Cymorth Ynni British Gas britishgasenergytrust.org.uk/grants-available
- Cronfa Cymorth Cwsmeriaid EDF Energy www.edfenergy.com/PSR

- Cronfa Ynni E.ON www.eonenergy.com/more-for-your-home/energy-fund.html
- Cronfa E. ON Next Energy www.eonnextenergyfund.com
- 'Octo Assist Fund' Octopus octopus.energy/blog/struggling-to-pay
- Cronfa Ynni Ovo www.ovoenergy.com/help/debt-and-energy-assistance
- Cronfa Caledi Scottish Power community.scottishpower.co.uk/t5/Extra-Help/Hardship-Fund/ta-p/53
- Tariff HelpU Dŵr Cymru - www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/helpu-tariff
- Gwasanaethau Blaenoriaeth Western Power Distribution www.westernpower.co.uk/customers-and-community/priority-services

Cronfa Cymorth Dewisol

Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer costau hanfodol fel nwy a thrydan, yn ogystal â bwyd, dillad neu deithio brys. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **Gwefan:** llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf Cysylltwch drwy e-bost: DAF.Feedback@northgateps.com neu ffonio: **0800 859 5924**

Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru 2022/23

Gall aelwydydd cymwys sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili hawlio taliad untro o £200 gan y Cyngor, diolch i gyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r taliad hwn yn ychwanegol at Gronfa Bil Ynni Llywodraeth y DU a'r Taliad Tanwydd Gaeaf a delir i bensiynwyr fel arfer.

Mae'r taliad ar gael i bob cartref cymwys (un taliad i bob cartref) sut bynnag maen nhw'n talu am eu tanwydd, er enghraifft, ar fesurydd rhagdal, drwy ddebyd uniongyrchol neu drwy dalu bil bob chwarter, a gellir ei hawlio ni waeth a ydynt yn defnyddio tanwydd ar y grid neu oddi ar y grid.

Rhagor o wybodaeth:

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Benefits-and-grants/Winter-fuel-support-scheme>

Gofalu am Gaerffili

Ffôn: 01443 811490

E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae'r tîm, Gofalu am Gaerffili, ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd Iau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am - 4.30pm).



Rheoli eich dyledion a'ch cyllidebu chi

Os ydych chi'n cael trafferth gyda dyledion, mae'n gallu bod yn anodd meddwl am unrhyw beth arall. Mae digon o gymorth a chynghor am ddim ar gael i'ch helpu chi i reoli eich arian chi'n effeithiol.

Bydd y sefydliadau a'r gwasanaethau cynghor canlynol yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i wneud y dewisiadau cywir, gan gynnwys cymorth i ddelio â'ch problemau dyled chi, sut i osgoi colli'ch cartref chi a sut i gael eich cyllid chi dan reolaeth unwaith eto.



Cymorth i denantiaid

Os ydych chi'n cael trafferth gyda thalu eich rhent a biliau eraill chi ac yn methu â chymryd camau i ddelio â'ch trafferthion ariannol chi, bydd eich dyledion chi'n cynyddu ac, efallai, y byddwch chi mewn perygl o golli'ch cartref chi, colli mynediad at gyfleusterau pwysig neu golli eich eiddo chi.

Rydyn ni yma i helpu. Gallwn ni drefnu cynghor a chymorth i wneud y mwyaf o'ch incwm chi, gostwng eich gwariant chi a gwneud atgyfeiriad

ar gyfer cynghor ar ddyledion. I drefnu apwyntiad, cysylltwch â'r adran rhenti **01443 811450** neu anfon neges destun **RENTHELP** i **81400** a bydd aelod o staff yn eich ffonio chi'n ôl.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/contact-us/General-enquiries/Housing-advice/Housing-rents?lang=cy-gb

Cefnogi Pobl

Mae Cefnogi Pobl yn gallu helpu pob unigolyn dros 16 oed sydd â phryderon am ddyled neu gyllidebu. Ewch i dudalen we Cefnogi Pobl am fanylion.

Website: www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing/Supporting-People-housing-related-support?lang=cy-gb

Dewis Cymru

Dyma le i fynd os ydych chi eisiau gwybodaeth neu gynghor am eich lles chi neu eisiau gwybod sut y gallwch chi helpu rhywun arall.

Gwefan: www.dewis.wales

Sefydliadau cymorth dyled

- **Cynghor ar Bopeth** - Darganfyddwch sut i ddechrau delio â'ch dyledion chi. www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian/
- **Adviceline Cymru: 0808 278 7935**

■ **Money Helper** - Yn darparu cynghor cyfrinachol ac annibynnol am ddim ar sut i ddelio â phroblemau dyled. www.moneyhelper.org.uk/cy

■ **National Debt Line** - Yn darparu cynghor cyfrinachol ac annibynnol am ddim ar sut i ddelio â phroblemau dyled. www.nationaldebtlime.org
Rhadffôn: 0808 808 4000

■ **Elusen dyled Step Change** - Elusen gofrestredig sy'n cynnig cymorth am dyled am ddim i unrhyw un yn y DU sydd ei angen. www.stepchange.org/how-we-help/debt-advice.aspx **Llinell Gymorth: 0800 138 1111**

■ **Turn2Us website** - cyfrifiannell cyllidebu benefits-calculator.turn2us.org.uk

Undebau Credyd

Mae undebau credyd yn sefydliadau cymunedol sydd dan berchnogaeth a sy'n cael eu rheoli gan yr aelodau sy'n eu defnyddio ac yn cael eu rheoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae undebau credyd yn annog aelodau i arbed yn rheolaidd, darparu benthyciadau ar gyfraddau isel, a helpu aelodau sydd angen cynghor a chymorth ariannol.

- **Undebau Credyd Cymru** creditunionsofwales.co.uk/cy/
- **Smart Money Cymru** smartmoneycymru.co.uk/cy/

Cymorth gyda swyddi, sgiliau, a chyflogaeth

Cymorth gyda swyddi, sgiliau, a chyflogaeth

Mae gan Dîm Caerffili dros 8,000 o staff sy'n cynorthwyo cymunedau i ffynnu. Rydyn ni'n weithlu mawr ac amrywiol gyda darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth galon ein gwaith ni. Os ydych chi'n frwdfrydig am wneud gwahaniaeth, ymunwch â *Thîm Caerffili – rydyn ni'n well gyda'n gilydd*.



Dysgu cymunedol i oedolion a chymorth cyflogaeth

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsgau i oedolion yn y gymuned a rhaglenni eraill i helpu gwella eich sgiliau a'ch rhagolygon gwaith chi.

- **Cyrsgau addysg i oedolion**
- **Pontydd i Waith 2**
- **Cymorth cyflogaeth adfywio cymunedol**
- **Ysbrydoli i Weithio**
- **Meithrin, Darparu a Ffynnu**
- **Sgiliau Gwaith i Oedolion 2**

Rhagor o wybodaeth Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/cost-of-living-support/jobs-skills-and-employment?lang=cy-gb

Mae cymorth pellach ar gael gan

■ **Gyrfa Cymru** - yn eich helpu chi i gynllunio eich gyrfa chi, paratoi am gael swydd, a dod o hyd i'r prentisiaethau, cyrsiau a hyfforddiant cywir a gwneud cais amdanyn nhw.
Gwefan: <https://gyrfacymru.llyw.cymru/> ffoniwch **0800 028 4844**.

■ **Canolfan Byd Gwaith a Mwy** – Gwefan: www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith

■ **Dod o hyd i swydd** - Canfod swyddi amser llawn neu ran amser yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r gwasanaeth hwn wedi disodli Universal Jobmatch.
Gwefan: www.gov.uk/chwilio-am-swydd

Porwch ein swyddi: www.caerffili.gov.uk/swyddi

Help i dalu am fwyd

Dod o hyd i'ch banc bwyd agosaf chi

Os ydych chi'n cael trafferth bwydo eich teulu chi, mae eich banc bwyd lleol chi yn gallu darparu bwyd brys a help mewn argyfwng. Mae banciau bwyd The Trussell Trust i gyd angen atgyfeiriadau drwy sefydliadau cymeradwy fel gwasanaethau cymdeithasol, cymdeithasau tai ac ati.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Managing-your-money/Foodbanks?lang=cy-gb

Talebau bwyd

Gallwch chi gael talebau oddi wrth Gyngor ar Bopeth, Canolfan Byd Gwaith a Mwy, meddygfeydd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol, ac rydych chi'n gallu eu defnyddio nhw yn eich banc bwyd lleol chi.

Prydau Ysgol am Ddim

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu ysgol yn amser llawn. Gwiriwch a ydych chi'n gymwys a gwneud cais ar-lein.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-dinners-and-breakfast-clubs/Free-school-meals?lang=cy-gb
Ffôn - **01443 864055**

FareShare

Nid oes angen atgyfeiriadau ar sefydliadau FareShare ac maen nhw ar gael i'r rhai mewn angen. Bydd tâl bychan yn cael ei dalu fesul bag i dalu costau petrol, fel arfer tua £3.00 y bag.

- FareShare – Clwb Pêl-droed Abertridwr - **07896 227197** bishoc@caerphilly.gov.uk a tighart22@gmail.com
- FareShare Bargod - **01443 836600** miriam@stgwladys.org
- FareShare - Eglwys y Drindod Sanctaidd, Ystrad Mynach - climer@live.com
- RCV Fare Share (Rhisga) - **01633 848899** tara@rcvuk.org
- TLC Fare Share (Rhisga) - **01633 601199** tlc_risca@outlook.com



Banciau Bwyd Lleol

Gweithio gydag asiantaethau atgyfeirio i roi talebau bwyd i'r rhai sydd angen bwyd brys yn ystod cyfnodau o argyfwng.

- Banc bwyd Aberbargod - **07944 354175** info@rhymneyvalley.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Coed Duon - **07971 668547** info@blackwooddistrict.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Caerffili - **029 2086 8151** info@caerphilly.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Prosiect CARE (Caerffili) - **029 2188 0212** dean.roberts@bmmr.church
- Pantri Pinc – Banc Bwyd HCT - **07507 630014** info@hcteam.cymru
- Banc Bwyd Tredegar Newydd - **07944 354175** info@rhymneyvalley.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Trecelyn - **07949 943139** geoffrey_champion@sky.com
- Banc Bwyd Cefn-y-pant - **07815 554759** adrianhussey69@aol.com
- Banc Bwyd Rhymni - **07944 354175** info@rhymneyvalley.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Rhisga - **07976 973961** info@risca.foodbank.org.uk
- Banc Bwyd Taf Bargod, Nelson - **07496 710984** info@taffbargoed.foodbank.org.uk

Cychwyn lach - Cael help i brynu bwyd a llaeth

Os ydych chi'n 10 wythnos yn feichiog neu'n fwy, neu os oes gennych chi blentyn o dan 4 oed, efallai y bydd gennych chi'r hawl i gael help i brynu bwyd iach a llaeth. Os ydych chi'n gymwys, bydd cerdyn Cychwyn lach yn cael ei anfon atoch chi gydag arian arno y gallwch ei ddefnyddio mewn rhai siopau yn y DU. Byddwn ni'n ychwanegu eich budd-dal at y cerdyn hwn bob 4 wythnos.

Os ydych chi'n gymwys byddwch chi'n cael:

- £4.25 bob wythnos o'ch beichiogrwydd o'r 10fed wythnos ymlaen
- £8.50 yr wythnos i blant o enedigaeth i flwydd oed
- £4.25 yr wythnos i blant rhwng 1 a 4 oed

Bydd yr arian yn dod i ben pan fydd eich plentyn yn 4 oed neu os nad ydych chi'n derbyn budd-daliadau mwyach. Gwiriwch eich cymhwysedd trwy e-bost - healthy.start@nhs.uk Ffôn - **0300 330 7010** Gwefan: www.healthystart.nhs.uk/how-to-apply/

Syniadau Siopa Bwyd

Cyn i chi fynd i siopa:

- Gwiriwch eich cypyrddau, oergell a rhewgell i weld beth sydd gennych chi
- Cynlluniwch brydau yr ydych chi'n bwriadu cael am yr wythnos a meddyliwch am ddefnyddio bwyd dros ben.
- Gwnewch restr siopa... a chadw ati! Gosodwch gyllideb darged i chi'ch hun.
- Peidiwch â mynd i siopa ar stumog wag.
- Cofiwch fynd â'ch hen fagiau siopa untro neu fagiau am oes.

Pan fyddwch chi'n siopa:

- Newidwch eich brandiau. Os ydych chi fel arfer yn prynu brandiau premiwm, ceisiwch newid i frand 'arferol' neu frand yr archfarchnad ei hun.
- Prynwch eitemau rhydd. Yn aml gall eitemau sydd wedi'u pacio a'u paratoi yn barod gostio mwy. Arbedwch ychydig o arian i chi'ch hun a phrynu ffrwythau a llysiau rhydd yn y symiau y byddwch chi'n eu defnyddio.
- Edrychwch ar y pris fesul uned. Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod 'cynigion' yn fargeinion da. Edrychwch bob amser ar y pris fesul uned a gweithio allan pa un sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian.
- Peidiwch â chael eich temptio gan hyrwyddiadau. Gwiriwch a yw arddangosiadau a hyrwyddiadau ar ddiwedd yr eil yn werth da am arian a gofyn i chi'ch hun a oes gwir eu hangen arnoch chi. Cofiwch, dim ond os bydd ei angen arnoch chi y mae'n fargen dda.

Adref:

- Gwiriwch cyn taflu i ffwrdd. Mae modd bwyta dros hanner y bwyd rydyn ni'n ei daflu. Gall bwyta unrhyw beth y tu hwnt i'r dyddiad 'defnyddio erbyn' (use by) fod yn beryglus, ond arweiniod yn unig yw'r dyddiad 'ar ei orau cyn' (best before). Defnyddiwch flas, golwg ac arogl i benderfynu ond os oes gennych chi unrhyw amheuaeth - taflwch ef allan.
- Ailddefnyddio ac ailgylchu. Ystyriwch brynu nwyddau y mae modd eu hail-lenwi i leihau pris a gwastraff. Mae rhagor o awgrymiadau, syniadau a ryseitiau ar gyfer eich bwyd dros ben ar wefan 'Love Food Hate Waste' Gwefan: www.lovefoodhatewaste.com

Gofalu am Gaerffili

Ffôn: **01443 811490**

E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae'r tîm, Gofalu am Gaerffili, ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd Iau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am - 4.30pm).



Help gyda budd-daliadau, rhenti, a biliau eraill

Mae'n bwysig eich bod chi'n cael yr holl fudd-daliadau, credydau treth a chymorth ariannol arall y mae gennych chi'r hawl iddyn nhw.

Gostyngiadau Treth y Cyngor

Gwiriwch a ydych chi'n gymwys a gwneud cais i gael arian oddi ar eich bil Treth y Cyngor chi os ydych chi ar incwm isel neu'n hawlio budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol. Gwefan: [www.caerphilly.gov.uk/Services/Council-tax/Council-tax-reduction-scheme-\(1\)?lang=cy-gb](http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Council-tax/Council-tax-reduction-scheme-(1)?lang=cy-gb)



Taliadau Tai Dewisol

Mae Taliadau Tai Dewisol yn darparu budd-dal tai i hawlwyd a chostau tai Credyd Cynhwysol gyda chymorth ariannol pellach i helpu talu eu costau tai nhw.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing-benefits/Discretionary-housing-payments?lang=cy-gb

Gwneud cais am Fudd-dal Tai

Mae'n bosibl gwneud cais newydd ar gyfer hawlwyd oedran Pensiwn neu rai mewn llety Byw â Chymorth/Tai Lloches.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing-benefits?lang=cy-gb

Grantiau a benthyciadau tai

Gwybodaeth am gymorth grant sydd ar gael i helpu perchnogion tai ac, mewn rhai amgylchiadau, tenantiaid, er mwyn atgyweirio, gwella neu addasu eich cartref chi.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing/Housing-grants-and-loans

Credyd Cynhwysol

Darganfyddwch a ydych chi'n gymwys i gael Credyd Cynhwysol, gwneud cais a chael cyngor i ddatrys unrhyw broblemau sydd gennych chi. Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing-benefits?lang=cy-gb

Budd-daliadau a grantiau Gofal Cymdeithasol

Mae Llywodraeth y DU yn darparu nifer o fuddion iechyd a gofal cymdeithasol i ddinasyddion sy'n gymwys ar eu cyfer gan gynnwys:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Analluogrwydd

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Benefits-and-grants/Social-care-benefits-and-grants?lang=cy-gb

Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi

Rhent, siopa, gwresogi... mae'r cyfan yn adio i fyny. Mae teuluoedd ledled Cymru yn teimlo'r straen ar gyllidebau eu haelwydydd oherwydd costau byw cynyddol, sy'n golygu bod yr ychydig o gymorth ychwanegol hwnnw yn bwysicach nag erioed. Os nad ydych chi'n siŵr pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio, mae Advicelink Cymru yn gallu eich helpu i wirio a hawlio'r hyn sy'n ddyledus i chi. Ffoniwch y llinell gymorth am ddim: **0808 250 5700** neu ewch i Gwefan: <https://llyw.cymru/hawliwch-yr-hyn-syn-ddyledus-i-chi> Mae gan filoedd o bobl yng Nghymru yr hawl i ragor o fudd-daliadau.

Cyfrifanellau budd-daliadau

Yn dibynnu ar eich sefyllfa, gallwch chi ddefnyddio cyfrifanellau budd-daliadau 'Turn2us' neu 'entitledto' i wirio pa fudd-daliadau y gallwch chi eu cael.

Gwefan: benefits-calculator.turn2us.org.uk

Gwefan: www.entitledto.co.uk

Gallwch chi hefyd gael cyngor gan y llinellau cymorth cenedlaethol hyn:

- Cymorth i hawlio Credyd Cynhwysol - **0800 024 1220**
- Llinell Gymorth Cyngor Defnyddwyr - **0808 223 1133**
- Pensionwise - **0800 138 3944**
- Adviceline Wales - **0344 447 2020**

Cymorth yn ein llyfrgelloedd

Mae ein llyfrgelloedd yn gynnes ac mae croeso i chi ddefnyddio eu hoffer TG a mwynhau **mynediad am ddim at y rhyngwrdd**.

Mae gweithio neu astudio yn eich llyfrgell leol yn gallu lleihau eich defnydd o drydan, nwy a dŵr yn ogystal â chostau cymudo. Gwefan: www.caerffili.gov.uk/llyfrgelloedd



Taliad £150 Cymorth Costau Byw Prif Gynllun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi talu cyfanswm o £9.4m i 62,934 o aelwydydd, sef 93% o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun hwn.

Daeth y cyfnod cofrestru ar gyfer y taliad hwn i ben ar 2 Medi 2022. Os ydych chi'n aelwyd sy'n ymddangos fel pe bai'n bodloni'r amodau cymhwys sydd wedi'u hegluro ar ein gwefan ond nad ydych chi wedi cofrestru eich manylion erbyn y dyddiad cau uchod, rydyn ni nawr yn gweithio gyda Swyddfa'r Post i anfon llythyr sy'n cynnwys Taleb Talu y mae modd ei defnyddio mewn unrhyw Swyddfa'r Post. Ewch â'r llythyr gydag un o'r dulliau adnabod sydd wedi'u nodi yn y llythyr i unrhyw Swyddfa'r Post erbyn 30 Tachwedd 2022 i gael eich taliad.

Cymorth Costau Byw – Cynllun Dewisol Cyngor Caerffili

Yn achos aelwydydd sydd ddim yn gymwys ar gyfer y Prif Gynllun, efallai eu bod nhw'n gymwys i gael rhywfaint o gymorth o dan Gynllun Cymorth Dewisol Costau Byw y Cyngor.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: <https://bit.ly/3DliP5a>

Cefnogi Pobl



Cymorth i chwilio am gartref a gwaith. Cymorth gyda llenwi ffurflenni, dyledion, budd-daliadau, gorchymyn troi allan, ôl-ddyledion rhent/morgais.

Cysylltwch â Cefnogi Pobl:

01443 864548

Anfonwch neges destun: housupport@caerffili.gov.uk

E-bost: cefnogipobl@caerffili.gov.uk

www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl

cefnogipobl
supporting people
supporting independence
cefnogi annibyniaeth



Costau ysgol a gofal plant

Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae cynghorau ledled Cymru yn ehangu argaeledd prydau ysgol am ddim, gan ddechrau gyda'u dysgwyr ieuengaf. Y nod yw y bydd pob disgybl ysgol gynradd yn gallu cael cinio ysgol am ddim erbyn 2024.

O fis Medi 2022, bydd Caerffili yn cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. O 7 Tachwedd 2022, bydd disgyblion Blwyddyn 2 a'r holl ddisgyblion oedran meithrin cofrestredig sy'n mynychu ysgol a gynhelir am sesiwn amser llawn, hynny yw yn mynychu meithrinfa ar gyfer y bore a'r prynhawn, yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim pan fyddan nhw'n bresennol ar y diwrnodau hynny.

Ni fydd plant sydd eisoes yn cael prydau ysgol am ddim yn cael eu heffeithio gan y ddarpariaeth. Darganfyddwch ragor am Brydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ar ein **Gwefan:** www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-dinners-and-breakfast-clubs?lang=cy-gb neu ffonio **01443 864055**.

Cinio Ysgol Am Ddim

Os ydych chi'n hawlio budd-daliadau penodol, gallech chi arbed arian drwy hawlio prydau ysgol am ddim i'ch plentyn. Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn.

Mae hyn yn cynnwys:

- Plant iau sy'n mynychu meithrinfa am ddiwrnodau llawn
- Disgyblion chweched dosbarth

Gwiriwch a ydych chi'n gymwys ar ein

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-dinners-and-breakfast-clubs?lang=cy-gb

neu drwy ffonio **01443 864055**



Cymorth ychwanegol i brynu hanfodion ysgol – Grant

Datblygu Disgyblion – Mynediad

Gall dysgwyr cymwys ym Mwrdeistref Sirol Caerffili bellach wneud cais am gymorth ariannol ychwanegol gan gynllun Hanfodion Ysgol Llywodraeth Cymru (Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad) sy'n helpu gyda chost gwisg ysgol, offer chwaraeon, deunydd ysgrifennu, a dyfeisiau. Mae hyn yn ychwanegol at Brydau Ysgol am Ddim.

Gall plant y mae eu teuluoedd ar incwm is ac sy'n gymwys i gael budd-daliadau penodol (yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim) wneud cais am grant o £225 fesul dysgwr, a £300 ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dechrau ym mlwyddyn 7, gan gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau ysgol uwchradd. Mae'r £100 ychwanegol ar gyfer y flwyddyn honno yn unig. Mae pob plentyn sy'n cael gofal yn gymwys ar gyfer y grant, p'un a ydyn nhw'n cael prydau ysgol am ddim ai peidio.

Nid yw disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim oherwydd trefniadau amddiffyn wrth bontio yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn. Gwnewch gais ar ein gwefan **Gwefan:** www.caerffili.gov.uk neu ffonio'r llinell gymorth **01443 863052**.

Cymorth ychwanegol ar gyfer hanfodion ysgol



Cymorth gyda chostau gofal plant

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio cymwys sydd â phlant tair a phedair oed am 48 wythnos y flwyddyn. Darllenwch gyngor manylach am Gynnig Gofal Plant Cymru a help arall ar gyfer talu am ofal plant a allai fod ar gael i chi yma. **Gwefan:** llyw.cymru/cymorth-i-dalu-am-ofal-plant

Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol hefyd ddarparu gwybodaeth am gymorth ariannol gyda chostau gofal plant.

Gwefan: www.blynyddoeddcynnarcaerffili.co.uk/cymorth-i-deuluoedd/fis/

Cyllid myfyrwyr addysg bellach ac uwch

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gyfrifol am brosesu, asesu a thalu cyllid myfyrwyr ar gyfer pob cais addysg bellach ac uwch.

Am fanylion am sut i wneud cais am gyllid myfyrwyr, ewch i **Gwefan:** www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Os oes gennych chi ymholiad am eich cyfrif cyllid myfyrwyr, dylech chi nawr gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050**.

Gall tudalennau Facebook Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd. Facebook (<https://www.facebook.com/SFWales>) a Twitter (https://twitter.com/SF_Wales)

Urddas Mislif

Mae nwyddau mislif ar gael am ddim mewn ysgolion, llyfrgelloedd, a chanolfannau ieuencid a chymunedol fel rhan o fenter Urddas Mislif y Cyngor, sy'n ceisio chwalu'r rhwystrau sy'n atal trigolion rhag cael mynediad at gynnyrch mislif a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r mislif.



Pasys teithio i'r ysgol

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i blant 4 - 18 oed (Dosbarth Derbyn i flwyddyn 13). Gwiriwch a ydych chi'n gymwys a gwneud cais am bäs teithio i'r ysgol am ddim.

Gwefan: www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-transport/School-travel?lang=en-GB neu ffoniwch **01443 864841 / 01443 864912**

Gofalu am Gaerffili

Ffôn: **01443 811490**

E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae'r tîm, Gofalu am Gaerffili, ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd Iau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am – 4.30pm).



Cymorth iechyd meddwl a lles

Ydy'r cynnydd mewn costau byw yn achosi straen i chi?

Rydyn ni oll yn teimlo effaith y cynnydd presennol mewn costau byw. I lawer ohonom ni, mae hyn wedi dod yn fwy na chynnydd costau byw – mae wedi dod yn argyfwng costau byw. Ni ddylai unrhyw un orfod dewis rhwng gwres neu fwyd, ond mae hyn yn dod yn realiti dyddiol i lawer.

Mae arian ac iechyd meddwl yn aml yn gysylltiedig – mae poeni am arian yn gallu effeithio ar eich iechyd meddwl chi, ac mae iechyd meddwl gwael yn gallu gwneud rheoli eich arian chi yn anodd. Mae poeni am arian yn gallu arwain at deimladau o bryder, straen, iselder, dicter. Mae yna lawer o wasanaethau cymorth ar gael i helpu os ydych chi'n cael trafferth.

Aros yn iach

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - lachach Gyda'n Gilydd - Yma i'ch helpu chi a'ch teulu chi i gadw'n iach. Mae costau byw yn gallu achosi straen i chi a'ch teulu chi. Mae lachach Gyda'n Gilydd yma i chi a'ch teulu chi gydag amrywiaeth o gyngor am iechyd a lles i rieni, pobl ifanc a phobl beichiog.

Gwefan: abbhealthiertogether.cymru.nhs.uk

Melo Cymru

Mae Melo yn cynnwys ystod eang o adnoddau hunangymorth rhad ac am ddim a gymeradwyir gan arbenigwyr. Gall pob un ohonom elwa o wella ein hiechyd meddwl a meithrin ein gwytnwch meddwl. Mae Melo yn darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau sy'n eich helpu i ddysgu sgiliau ymarferol i reoli teimladau/sefyllfaoedd anodd, a allai helpu i leihau'r risg o fynd yn sâl yn feddyliol. Mae hefyd yn cynnwys cyngor arbenigol ar yr hyn y gallwn ni i gyd ei wneud i wella ein lles a theimlo'n hapusach.

Gwefan: <https://www.melo.cymru/>



Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nod ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r enw 'Sut wyt ti?' yw helpu pobl Cymru i ofalu am eu lles.

Mae gwybodaeth am:

- Pam mae fy lles meddyliol yn bwysig?
- Sut i ofalu am eich lles
- Sut i gael cymorth

Gwefan: phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/how-are-you-doing/

MIND - Arian ac iechyd meddwl

Mae iechyd meddwl gwael yn gallu gwneud ennill a rheoli arian yn anoddach. Mae poeni am arian yn gallu gwneud eich iechyd meddwl chi yn waeth. Mae'n gallu dechrau teimlo fel cylch dieflig.

Dysgwch ragor ar wefan MIND am drefnu eich cyllid chi, hawlio budd-daliadau pan fo gennych chi broblem iechyd meddwl, delio â gwasanaethau, ac edrych ar ôl eich iechyd meddwl chi pan rydych chi'n poeni am arian.

Gwefan www.mind.org.uk/information-support/tips-for-everyday-living/money-and-mental-health

Cyngor ar iechyd meddwl ac arian

Ewch i'r wefan cyngor ar iechyd meddwl ac arian i gael cyngor a chymorth clir, ymarferol i bobl sy'n cael problemau gydag iechyd meddwl ac arian.

Gwefan: www.mentalhealthandmoneyadvice.org/wal

Dewis Cymru

Dewis Cymru yw'r lle i fynd os ydych eisiau gwybodaeth neu gyngor am eich lles – neu eisiau gwybod sut y gallwch chi helpu rhywun arall.

Pan fyddwn ni'n siarad am eich lles chi, nid dim ond eich iechyd yr ydym ni'n ei olygu. Rydym ni'n golygu pethau fel ble rydych chi'n byw, pa mor ddiogel rydych chi'n teimlo, mynd allan, a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Nid oes unrhyw ddau berson yr un peth ac mae lles yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Felly mae Dewis Cymru yma i'ch helpu chi i ddarganfod rhagor am yr hyn sy'n bwysig i chi.


Mae gennym ni wybodaeth a all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ac mae gennym ni hefyd wybodaeth am bobl a gwasanaethau yn eich ardal chi a all eich helpu gyda'r pethau sy'n bwysig i chi.

Gwefan: www.dewis.cymru/the-place-for-wellbeing-in-wales



Dewis Cymru

Cael dewis a chymryd rheolaeth



Byw Heb Ofn

Mae Byw Heb Ofn yn darparu gwybodaeth a chingor cyfrinachol hawdd eu cyrchu i holl ddioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r rhai sy'n agos atyn nhw, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr ar amrywiaeth o faterion a all fod yn berthnasol i'ch sefyllfa. Mae ar agor 24/7, mae am ddim ac ni fydd yn ymddangos ar filiau ffôn.

Dros y ffôn: **0808 80 10 800** (Croesawir galwadau yn Gymraeg) Gwasanaeth testun: **07860 077333**

E-mail: info@livefearfreehelpline.wales

Gwefan: llyw.cymru/byw-heb-ofn

Help gyda chostau gofal iechyd y GIG

Gall pobl gymwys gael triniaeth ddeintyddol am ddim, profion llygaid a chymorth gyda chostau eraill y GIG. I gael gwybod rhagor: Cael help gyda chostau gofal iechyd y GIG - llyw.cymru/gwiriwch-pa-help-allech-chi-ei-gael-i-dalu-am-gostaur-gig

Cynllun incwm isel: cymorth gyda chostau iechyd y GIG - Gwefan: <https://gov.wales/low-income-scheme-help-nhs-health-costs>

Cael help gyda chostau teithio GIG - Gwefan: llyw.cymru/cymorth-gyda-chostau-teithior-gig

Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru

Llinell gymorth iechyd meddwl bwrpasol. Mae'n darparu cymorth cyfrinachol i'ch helpu i ddod o hyd i gymorth sydd ar gael yn eich ardal leol. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennol. Cysylltwch ar **0800 132 737** neu tecstiwch 'help' i **81066**.



Sut rydyn ni wedi cynorthwyo trigolion yn ystod 2022

- £1.2 miliwn mewn budd-daliadau lles blynyddol ychwanegol i drigolion cymwys.
- Cynorthwywyd 350 o drigolion i hawlio taliad untro prif gynllun costau byw o £150.
- Cwblhawyd 102 o geisiadau grant gofawyr di-dâl.
- 163 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth am gyngor ffurfiol ar ddyledion.
- Cynorthwywyd 210 o drigolion i hawlio gostyngiad yn treth y cyngor.
- 170 o geisiadau i gronfa cymorth dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer nwyddau gwyn a grantiau arian parod.
- Rhoddwyd cyngor ynni i 102 o drigolion.
- 220 o atgyfeiriadau at fanciau bwyd.
- Cymorth i 560 o drigolion i hawlio Taliad Disgresiwn at Gostau Tai i'w cynorthwyo i dalu diffygion mewn rhent.

Mae staff Cyngor Caerffili yn gwneud i bob cyswllt gyfrif. Mae'r tîm i gyd wedi'u hyfforddi i ddarparu cyngor budd-daliadau sylfaenol i helpu ein trigolion mwyaf agored i niwed i gael yr holl fudd-daliadau y mae ganddyn nhw'r hawl iddyn nhw. Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos yr effaith y mae ein cymorth wedi'i chael ar fywydau unigol.

Trigolyn 1

Ffoniodd y tenant yn gofidio am y cap ar fudd-daliadau ac nid oedd yn rheoli ei rent gydag ôl-ddyledion yn cronni. Cwblhawyd cais tai dewisol i gynorthwyo gyda'r diffyg incwm mwyaf posibl.

Ymhelaethodd y sgwrs i faterion iechyd meddwl y plentyn a'r brwydrau dyddiol, cwblhawyd y ffurflen Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer Plant a'i dyfarnu wedi hynny gan arwain at ddileu'r cap ar fudd-daliadau. Ffurflen gais Lwfans Gofalwr ar-lein wedi'i chwblhau. Cysylltwyd â'r gwasanaeth credyd treth a dyfarnwyd yr elfen plentyn anabl. Sicrhawyd £15,000 y flwyddyn o incwm ychwanegol.

Sylw gan y trigolyn

"Rydych chi wedi fy helpu gyda phopeth... ffurflenni, galwadau ffôn, pan rydw i wedi cynhyrfu, ac angen tawelwch meddwl... unrhyw beth i'w wneud â fy rhent a'r pryderon a gefais. Ni allwn fod wedi gwneud dim ohono heb eich cymorth parhaus. Mae cael taliad annibyniaeth bersonol yn llythrennol wedi newid fy mywyd i a bywyd fy mhlant ac ni allaf fynegi pa mor ddiolchgar ydw i...Rwy'n

mawr obeithio y byddwch chi'n gallu parhau i helpu pobl, gan eich bod chi'n arbennig o dda o ran gwneud hynny. Ni allwn fod wedi gwneud unrhyw un o'r ffurflenni na delio â'r galwadau ffôn a gefais hebddoch chi DIOLCH."

Trigolyn 2

Roedd y trigolyn wedi dechrau ymgysylltu â nifer o asiantaethau cymorth ond nid oedd erioed wedi parhau i gysylltu â nhw. Cysylltodd un o'n tîm ag ef ac roedd yn ddyfal iawn gan wrthod troi cefn ar y tenant ac roedd yn dyfalbarhau dros sawl mis. Llwyddodd yr aelod tîm i berswadio'r barnwr fod iechyd meddwl gwael y tenant wedi arwain at ddiffyg ymgysylltu. Yr wythnos hon maen nhw wedi dyfarnu dros £25 mil o fudd-daliadau ôl-ddyddiedig ac incwm ychwanegol o £15,000 y flwyddyn i'r tenant.

Trigolyn 3

Cysylltodd tenant preifat am barsel bwyd. Sylwodd tîm Gofalu am Gaerffili ar angen y trigolyn am gymorth ychwanegol, a gwnaed atgyfeiriad at ein tîm budd-daliadau lles. Roedd gan y tenant preifat ôl-ddyledion ac roedd wedi cael hysbysiad adran 21 gan ei landlord a oedd yn golygu ei bod mewn perygl o golli ei chartref. Roedd cais Taliad Disgresiwn at Gostau Tai cychwynnol y tenant ei hun yn aflwyddiannus. Cwblhawyd a chyflwynwyd adolygiad manwl o wariant - roedd ôl-ddyledion o dros £2,000. Cafodd y tenant £1,400, gan leihau'r ôl-ddyledion i £600 a chafodd daliad pellach am 13 wythnos.

Trigolyn 4

Ffoniodd y trigolyn i holi am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai ar ôl gweld neges ar dudalen Facebook CBSC. Mae'r trigolyn yn byw mewn tŷ rhent preifat tair ystafell wely ac yn cael trafferth ers gorfod rhoi'r gorau i weithio.

- Ffurflen gais Taliad Disgresiwn at Gostau Tai wedi'i chwblhau a'i dyfarnu
- Gwriad budd-daliadau wedi'i gwblhau a gwnaed cais am Lwfans Gweini a chafodd ei ganiatáu, gwnaed cais hefyd am Ostyngiad Person Sengl a chredyd pensiwn.
- Hen incwm oedd £173.49 yr wythnos.
- Incwm newydd yw £334 yr wythnos.
- £154.40 yr wythnos yn fwy cysurus. Dros y flwyddyn mae hi'n ennill £8,028 yn fwy.

Roedd y trigolyn wrth ei bodd ac mor ddiolchgar am ein gwasanaeth gan iddi egluro ei bod wedi gweithio erioed ac nad yw'n deall y system budd-daliadau a'r hyn sydd ar gael iddi.

Cyngor ar Bopeth Caerffili Blaenau Gwent

Gallwn ni i gyd wynebu problemau sy'n ymddangos yn gymhleth neu'n fygythiol. Yn Cyngor ar Bopeth, rydyn ni'n credu na ddylai neb orfod wynebu'r problemau hyn heb gyngor annibynnol o ansawdd da. Dyna pam mae Cyngor ar Bopeth Caerffili Blaenau Gwent yma: i roi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i symud ymlaen – pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag yw eu problem nhw.

Rydyn ni'n darparu cyngor cyfrinachol, annibynnol a diduedd am ddim ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae cyngor wyneb yn wyneb ar gael yn:

- Swyddfa Cyngor ar Bopeth Caerffili Blaenau Gwent (1-2 Church Place, Bargod) – Dydd Mercher, 10.00am tan 1.00pm
- Siambrau'r Cyngor, Bedwas – Dydd Mercher, 9.30am tan 12.00pm
- Llyfrgell Caerffili – Dydd Gwener, 9.30am tan 1.00pm
- Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni – Dydd Gwener, 1.00pm tan 4.00pm

Rydych chi'n gallu cysylltu â chynghorydd profiadol trwy ein gwasanaeth Advicelink ni ar **0800 702 2020** am gyngor ar unrhyw fater rydych chi'n ei wynebu.

Mae Advicelink ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 5pm, ac mae galwadau am ddim o ffonau symudol a llinellau tir.

I siarad â ni ar-lein, ewch i: www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/Cysylltu-a-ni

Gallwch chi hefyd gael cyngor gan y llinellau cymorth cenedlaethol hyn:

- **Cymorth i hawlio Credyd Cynhwysol - 08000 241 220**
- **Llinell Gymorth Defnyddwyr - 0808 223 1144** (Cymraeg)
- **Pensionwise - 0800 138 3944**

Gofalu am Gaerffili

Ffôn: 01443 811490

E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk

Mae'r tîm, Gofalu am Gaerffili, ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd lau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am – 4.30pm).

